Campus Services

Gwasanaethau'r Campws

**Datganiad Preifatrwydd y Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau**

Prifysgol Caerdydd yw'r rheolydd data, ac felly, rydyn ni'n cymryd eich preifatrwydd o ddifrif. Byddwn ni ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i brosesu eich ymholiad/archeb, a hynny er mwyn cynnig y gwasanaethau yr ydych wedi gofyn amdanyn nhw. Mae'r hysbysiad diogelu data hwn yn atodol i hysbysiad diogelu data y brifysgol ar gyfer ymholwyr, ac nid yw'n ei ddisodli, ac ynddo y cewch chi hyd i wybodaeth am eich hawliau, a sut i gysylltu â swyddog diogelu data a Chomisiynydd Gwybodaeth y brifysgol.

Sylwer ein bod ni'n cadw cofnod o'ch manylion cyswllt at ddefnydd mewnol yn unig. Gan eich bod chi wedi cysylltu â ni i gael gwybodaeth am ein cyfleusterau a'n gwasanaethau, neu wedi cadw lle ar gyfer man cyfarfod, arlwyo neu lety gyda ni, bydd y manylion rydych chi wedi'u rhoi yn cael eu storio yn ein cronfa ddata Cynadleddau a Digwyddiadau.

Hoffem gysylltu â chi o dro i dro er mwyn rhannu ein cylchlythyr diweddar, a fydd yn sôn am unrhyw ddatblygiadau newydd am ein cyfleusterau/gwasanaethau neu unrhyw gynigion arbennig. Mae'n bosibl ein bod ni eisoes anfon y negeseuon hyn atoch os ydych chi wedi nodi eich bod yn fodlon eu derbyn neu os ydych chi wedi defnyddio ein cyfleusterau. Os nad ydych chi eisiau derbyn cyfathrebu marchnata mwyach, gallwch chi ddewis optio allan ar unrhyw adeg, drwy glicio ar y ddolen dad-danysgrifio berthnasol ar waelod unrhyw e-bost marchnata y byddwch chi'n ei dderbyn gennym ni.

Caiff eich data ei gadw'n ddiogel ac yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Mae Prifysgol Caerdydd yn defnyddio trydydd parti i gasglu taliadau gan gynrychiolwyr sy'n cofrestru am gyfarfod/cynhadledd academaidd; mae gan y sefydliadau rwymedigaeth gytundebol i brosesu data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data a'n cyfarwyddiadau ni. Ni fydd data byth yn cael eu "gwerthu" i drydydd parti neu gwmnïau/sefydliadau eraill.

Gall y brifysgol gasglu a chadw'r wybodaeth bersonol ganlynol oddi wrthoch chi:
Eich enw, gan gynnwys teitl
Cyfeiriad cartref neu gyfeiriad eich gweithle
Rhif ffôn cyswllt
Cyfeiriad e-bost
Gwybodaeth am daliadau, lle y bo'n briodol
Pan fo'u hangen, manylion cyswllt eich perthynas agosaf i'w defnyddio mewn sefyllfa frys
Gofynion personol sy'n ymwneud â chadw lle mewn digwyddiad h.y. gofynion dietegol/hygyrchedd

Pam ydyn ni'n casglu'r data hyn?
- Caiff gwybodaeth bersonol ei defnyddio at ddibenion gweinyddu cysylltiedig (Sylfaen gyfreithiol (1) - mae angen prosesu data o'r fath er mwyn cyflawni contract).
- Er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y cynadleddwyr yn ystod eu cyfnod ar y campws, a bod addasiadau rhesymol wedi'u rhoi ar waith (Sylfaen gyfreithiol (5) - mae angen prosesu data o'r fath er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae gofyn i'r brifysgol lynu ati.
- Er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch newyddion a digwyddiadau sydd ar ddod (Sylfaen gyfreithiol (3) – gyda chaniatâd/Prosesu data sy'n angenrheidiol at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y Brifysgol neu drydydd parti).

Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

Rydyn ni'n cadw'r wybodaeth amdanoch chi mewn modd diogel, a dim ond y bobl sydd angen ei gweld fydd yn cael gwneud hynny; er enghraifft, y tîm Cynadleddau, Digwyddiadau ac Arlwyo (y staff fydd yn prosesu eich ymholiad/archeb), Tîm Rheoli'r Neuaddau Preswyl (lle y cedwir ystafell mewn neuadd preswyl) a'r Tîm Cyllid.

Mae polisïau ar waith i gadw'r wybodaeth am gyhyd ag sy'n angenrheidiol yn unig. Os ydych chi wedi prosesu trafodion ariannol gyda ni, ein polisi yw cadw cofnod o'r rhain am 7 mlynedd.

Bydd unrhyw newidiadau i'n polisi preifatrwydd yn y dyfodol yn cael eu postio i'n gwefan a, pan fo'n briodol, byddwch chi'n derbyn hysbysiad e-bost.

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau am y ffyrdd rydyn ni'n defnyddio eich data personol neu os ydych chi eisiau optio allan o dderbyn gohebiaeth gennym, neu eisiau cywiro neu ddiweddaru unrhyw beth, e-bostiwch Conference@Caerdydd.ac.uk

Gallwch chi hefyd ddewis teilwra sut rydyn ni'n cysylltu â chi a/neu ddad-danysgrifio o unrhyw ohebiaeth gan y Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau. Rhowch wybod i ni am eich dewisiadau drwy gysylltu â:

**Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau**
**E-bost: Conference@caerdydd.ac.uk**
**Ffôn: 029 2087 5117**
**Prifysgol Caerdydd**
**Tŷ Southgate**
**Maes Bevan**
**Caerdydd CF14 3AT**